# Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynlluniau Gweithredu Llwybr Drafft ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol

## Lleihau cyflwyniad a lledaeniad

Mehefin 2025

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy’n gyfrifol am wella a diogelu’r amgylchedd, tyfu’r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi’n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o’r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio’n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a’n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella’r amgylchedd i’r genhedlaeth nesaf, a’i adael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni’r amgylchedd ynddo.

Mae’r ddogfen hon wedi’i llunio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, sy'n cynnal gweithgareddau tebyg er budd eu priod wledydd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae’r wybodaeth hon wedi’i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn invasivealienspecies@defra.gov.uk

## Cynnwys


Rhagymadrodd ........................................ 4

Beth yw Cynlluniau Gweithredu Llwybrau? ........................................ 4

Y dull ar gyfer pennu blaenoriaeth y llwybrau ........................................ 5

Datblygu PAPs ........................................ 6

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad ........................................ 7

Cwestiynau ........................................ 8

Cyfrinachedd a diogelu data ........................................ 8

Cwestiynau rhagarweiniol ........................................ 9

Cwestiynau am PAPs ........................................ 11

# Rhagymadrodd

Mae'r term 'rhywogaethau anfrodorol' yn cyfeirio at rywogaeth a gafodd ei chyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol y tu allan i'w hamrediad brodorol drwy weithredoedd gan bobl. 'Rhywogaeth anfrodorol ymledol' (INNS) yw unrhyw anifail neu blanhigyn anfrodorol sydd â'r gallu i ledaenu gan achosi niwed i'r:

- amgylchedd,
- yr economi,
- ein hiechyd,
- neu'n ffordd o fyw.

Dyma un o brif ysgogwyr uniongyrchol colledion bioamrywiaeth yn fyd-eang[1] a bygythiad i'n gallu i gyrraedd ein targedau amgylcheddol ehangach. Maen nhw hefyd yn costio amcangyfrif o £1.9bn y flwyddyn[2] i economi Prydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) ac yn effeithio ar ein gallu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur sy'n ein hwynebu. Mae INNS yn creu effeithiau negyddol ar boblogaethau o rywogaethau brodorol sy'n arwain at leihau maint y boblogaeth a llai o amrywiaeth o rywogaethau.

## Beth yw Cynlluniau Gweithredu Llwybrau?

Llwybrau yw'r enw ar y ffyrdd a'r mecanweithiau ar gyfer cyflwyno a lledaenu INNS. Bernir bod rhai llwybrau'n creu risg uwch gan fod ganddyn nhw'r potensial i gyflwyno nifer uwch o INNS sy'n creu effaith fawr.

Mae lleihau'r risg sy'n cael ei chreu gan lwybrau cyflwyno a llwybrau lledaenu yn un ffordd allweddol o fynd i'r afael â'r bygythiad o du INNS. Mae datblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau (PAPs) yn elfen allweddol ar atal a rheoli'r risg sy'n dod o INNS. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r cynlluniau hyn yn y Strategaeth ar Rywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr ac yn y ddeddfwriaeth ddomestig.[3] Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r llwybrau cyflwyno a lleihau'r risgiau, mae angen cymryd camau cadarn drwy:

- y llywodraeth

---

[1] https://ipbes.net/invasive-alien-species-assessment

[2] Mae'r ffigur ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) sydd wedi eu cynnwys yn Strategaeth Prydain Fawr. Eschen, R., Kadzamira, M., Stutz, S. et al. An updated assessment of the direct costs of invasive non-native species to the United Kingdom. Biol Invasions 25, 3265–3276 (2023). https://doi.org/10.1007/s10530-023-03107-2

[3] Rheoliad IAS yr UE a ddargadwyd 1143/2014; Erthygl 13. https://www.legislation.gov.uk/eur/2014/1143/contents

- partneriaid
- tirfeddiannwyr
- sefydliadau perthnasol eraill
- Y cyhoedd

Mae pum PAP wedi'u datblygu gan weithgorau a sefydlwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr, yn cynnwys cynrychiolwyr o:

Defra,
Llywodraeth yr Alban a
Llywodraeth Cymru,
asiantaethau'r llywodraeth
partneriaid cyflawni allweddol

Mae'r rhain yn cyflwyno dulliau gweithredu arfer gorau gyda chamau gweithredu allweddol i'r Llywodraeth, cyrff hyd braich (ALBs), busnesau, cyrff anllywodraethol, clybiau hamdden ac unigolion eu cymryd er mwyn helpu i lywio adnoddau ac ymddygiad yn y cyfeiriad cywir. Mae'r camau'n cynnwys codi ymwybyddiaeth, er enghraifft drwy ddangos arwyddion a darparu gwybodaeth i grwpiau o ddefnyddwyr, gweithredu a gwella mesurau bioddiogelwch er enghraifft trwy ddarparu cyfleusterau i olchi offer ar ôl chwaraeon dŵr; a hybu'r arferion gorau ymhlith grwpiau diwydiant a grwpiau defnyddwyr.

Nid yw'r PAPs yn newid y ddeddfwriaeth nac yn creu beichiau neu waharddiadau.

## Y dull ar gyfer pennu blaenoriaeth y llwybrau

Cafwyd dadansoddiad cynhwysfawr[4] a gymerodd i ystyriaeth yr holl rywogaethau anfrodorol a gafodd eu cyflwyno'n anfwriadol ac a ymledodd ac ymsefydlu ym Mhrydain fawr yn y cyfnod diweddar. Defnyddiwyd dull a oedd yn asesu'r bygythiad o du llwybrau sydd wedi cyflwyno'r holl rywogaethau anfrodorol sydd wedi ymsefydlu ym Mhrydain Fawr ers 1950 (er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad yn canolbwyntio ar lwybrau sydd wedi bod yn weithredol yn ddiweddar). Drwy ddefnyddio'r dull hwn, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, cafodd model terfynol ei ddatblygu ar gyfer asesu llwybrau blaenoriaeth a hwnnw'n rhestru'r llwybrau yn eu trefn ar sail effaith gyfan y rhywogaethau hyn.

Cafwyd dadansoddiad arall a fu'n edrych ar y 'Rhywogaethau sy'n peri pryder arbennig',[5] a chafodd 2 lwybr ychwanegol flaenoriaeth yn ei sgil.

---

[4] https://www.nonnativespecies.org/resources-and-projects/publications-and-reports#riskanalysis

[5] Rheoliad IAS yr UE a ddargadwyd 1143/2014 https://www.legislation.gov.uk/eur/2014/1143/contents

Cafodd cyfanswm o 36 o lwybrau cyflwyno eu nodi a barnwyd bod 7 llwybr yn flaenoriaethau allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw yn y Cynlluniau Gweithredu Llwybrau cychwynnol, sef:

- baeddu cragen llongau
- dianc o arddwriaeth
- halogyddion o blanhigion addurnol
- dŵr balast
- cudd-deithwyr ar offer pysgota
- dianc o sŵau neu erddi botanegol
- anifeiliaid anwes yn dianc.

Byddwn yn parhau i asesu proses y PAPs, ac mae yna botensial i ddatblygu rhagor o PAPs yn y dyfodol ar gyfer llwybrau pellach.

## Datblygu PAPs

PAPs sy'n ymdrin â 6 o'r llwybrau blaenoriaeth wedi cael eu drafftio ar gyfer;

- sŵau ac acwaria
- pysgota
- chychod hamdden
- garddwriaeth
- anifeiliaid anwes

Mae'r PAPs hyn wedi bod ar gael i'w gweld ac er mwyn cynnig sylwadau arnynt ar ffurf ddrafft ar wefan Ysgrifenyddiaeth GBNNS.

Roedd datblygu'r PAPs drafft yn golygu ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid a sefydliadau eraill. Mae'r dull hwn wedi rhoi dealltwriaeth eang o bob llwybr, wedi adnabod y risgiau allweddol, ac wedi rhoi dealltwriaeth o'r ffordd orau o liniaru'r risgiau hynny trwy'r gweithredoedd yn y PAPs. Mae'r ymgysylltu helaeth a'r gwaith tuag at bob PAP wedi caniatáu inni ddatblygu set lawn o gamau sy'n targedu'n benodol y risgiau y bernir eu bod yn bresennol ym mhob llwybr blaenoriaeth.

Cyn cyhoeddi'r PAPs terfynol, mae Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban o dan ddyletswydd i ymgynghori â'r cyhoedd, fel sy'n ofynnol yn Rheoliad cymhathedig IAS yr UE[6]. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad sefydliadau a'r cyhoedd yn y cam olaf hwn o'r gwaith datblygu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gasglu adborth ehangach am y camau ym mhob PAP. Bydd Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn ystyried

[6] Rheoliad IAS yr UE a ddargadwyd 1143/2014 https://www.legislation.gov.uk/eur/2014/1143/contents

yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio dogfennau'r PAPs lle bo'n briodol, gyda'r nod cyffredinol o wneud y PAPs mor gynhwysfawr â phosibl. Yr ymgynghoriad hwn felly yw'r cam olaf wrth ddatblygu'r PAPs cyn eu cyhoeddi.

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae 6 llwybr yn cael eu trafod gan 5 dogfen PAP ar wahân:

- cychod hamdden
- pysgota
- garddwriaeth
- sŵau ac acwaria
- anifeiliaid anwes

Mewn rhai achosion, bydd gorgyffwrdd rhwng buddiannau a sylwadau'r rhanddeiliaid (er enghraifft Pysgota gyda Chychod Hamdden), fodd bynnag, efallai y bydd rhai rhanddeiliaid eisiau gwneud sylw ar un PAP yn unig, heb unrhyw ddiddordeb yn y lleill.  . Gan hynny, bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i gynnig sylwadau ar un PAP, rhai neu bob un o'r PAPs, gyda chwestiynau ar wahân ar gyfer pob PAP.

Dylid nodi bod y PAP Sŵau ac Acwaria wedi'i ddatblygu i gynnwys y Deyrnas Unedig gyfan. Ymgynghoriad ar gyfer Prydain Fawr yn unig yw hwn. Er hynny, nid yw'r PAP Sŵau ac Acwaria wedi'i ddiwygio i fod yn benodol i Brydain Fawr. Bydd Gogledd Iwerddon yn cynnal ymgynghoriad ar wahân ar elfennau o'r PAP Sŵau sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon. Gan hynny, yn yr ymgynghoriad hwn, canolbwyntiwch eich sylwadau ynglŷn â'r PAP Sŵau ac Acwaria ar Brydain Fawr yn unig.

Mae'r PAP 'Garddwriaeth' wedi'i ddatblygu i gynnwys dianc o arddwriaeth a halogyddion o blanhigion addurnol. Cofiwch gadw hyn mewn cof wrth ateb cwestiynau am y PAP hwn.

Hoeliwch eich sylw ar ddogfen y PAP penodol rydych chi'n ateb cwestiynau arno. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gynnig sylwadau ar y broses flaenoriaethu nac ar feysydd llwybrau eraill y gallai PAP gael ei ddatblygu ar eu cyfer yn y dyfodol.

Bydd ein proses adolygu yn cynnwys safoni rhywfaint o'r testun ar draws y dogfennau a sicrhau bod gan bob dogfen glawr blaen priodol.

**Sut i ymateb**

- **Citizen Space**
- **Ebost:** invasivealienspecies@defra.gov.uk
- **Post:** INNS PAP Consultation Coordinator<br>Department for Environment, Food and Rural Affairs<br>2 Marsham Street<br>London<br>SW1P 4DF

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg am 8 wythnos a bydd yn cau ar 18 Awst 2025.

Bydd Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio dogfennau’r PAPs lle bo’n briodol, gyda'r nod cyffredinol o wneud y PAPs mor gynhwysfawr â phosibl a chyhoeddi fersiynau terfynol erbyn diwedd 2025.

### Nodyn arbennig ynghylch y PAP dŵr balast

Sylwch fod y gofyniad bod rhaid datblygu PAP Dŵr Balast wedi cael ei ateb wrth i’r Deyrnas Unedig ymuno â’r Confensiwn Rhyngwladol ar Reoli Dŵr Balast (“Confensiwn BWM”). Cynhaliodd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), sef asiantaeth weithredol i'r Adran Drafnidiaeth (DfT), ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 24 Mawrth a 16 Mehefin 2021 ynghylch drafft o’r Rheoliadau Llongau Masnach (Rheoli Dŵr Balast a Gwaddodion Llongau) 2021. Mae’r rheoliadau hyn nawr wedi’u gwneud fel Rheoliadau Llongau Masnach (Rheoli Dŵr Balast a Gwaddodion Llongau) 2022. Cafodd y Rheoliadau eu llunio ar mwyn cynnwys yng nghyfraith y Deyrnas Unedig ofynion y Confensiwn Rhyngwladol ar Reoli Dŵr Balast a Gwaddodion Llongau 2004. Roedd hwn yn rhan o'r pecyn i ganiatáu i'r Deyrnas Unedig ymuno â’r Confensiwn BWM, ym mis Mai 2022. Mae adroddiadau ymgynghori llawn ar gael yma: https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-draft-regulations-for-the-control-and-management-of-ships-ballast-water-and-sediments. Gan ein bod ni wedi ymgynghori yn y maes hwn yn barod, fyddwn ni ddim yn gofyn cwestiynau am Ddŵr Balast fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

# Cwestiynau

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i’r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

Bydd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth: https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs. Bydd atodiad i’r crynodeb yn cynnwys rhestr o’r holl sefydliadau wnaeth ymateb ond nid enwau, cyfeiriadau na manylion cyswllt personol pobl.

Gallai Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i’r ymgynghoriad hwn fel ei fod ar gael i’r cyhoedd ond heb eich enw personol a’ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost).

Os dewiswch ‘Ie’ wrth ateb y cwestiwn isod yn gofyn a fyddech yn hoffi i unrhyw beth yn eich ymateb aros yn gyfrinachol, byddwn yn gofyn i chi nodi’n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw’n gyfrinachol gan egluro eich rhesymau dros ei chadw’n gyfrinachol. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymatebion i’r ymgynghoriad hwn fod yn destun ei rhyddhau i’r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â’r gyfraith ar gael mynediad at wybodaeth (yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004) (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Gwybodaeth 2018 (DPA)). Mae gennym ddyletswydd, yn bennaf o dan yr EIR, FOIA a’r DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu i’r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, bydd egluro eich rhesymau dros fod eisiau cadw’r wybodaeth, yn llwyr neu’n rhannol, yn gyfrinachol yn ein helpu i gydbwyso ein dyletswydd i ddatgelu yn erbyn unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd. Os derbyniwn gais am y wybodaeth a roesoch yn eich ymateb i’r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yn llawn eich rhesymau dros ofyn am gadw’r wybodaeth yn gyfrinachol ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw’r wybodaeth yn gyfrinachol bob tro.

Os dewiswch ‘Na’ wrth ateb y cwestiwn yn gofyn a hoffech gadw unrhyw beth yn eich ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i’r cyhoedd ond heb gynnwys eich enw personol a’ch manylion cyswllt preifat.

Weithiau bydd Defra’n rhannu’r wybodaeth a roesoch yn eich ymateb i’r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Bydd hyn ond yn digwydd er mwyn gallu dadansoddi’r ymateb i’r ymgynghoriad a chreu adroddiad ar grynodeb o’r ymatebion.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag “Egwyddorion Ymgynghori” Swyddfa’r Cabinet ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi’i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a’r ymarfer galwad am dystiolaeth, ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice.cy.

Os oes gennych unrhyw sylw neu gŵyn am y broses ymgynghori ei hun, dylech e-bostio consultation.coordinator@defra.gov.uk.

## Cwestiynau rhagarweiniol

**C1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?**

- Hoffwn
- Na hoffwn
- Os ydych chi wedi ateb ‘Hoffwn’ i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rheswm.

**C2 Beth yw'ch enw chi?**

**C3. Beth yw'ch cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth?**

Rhowch gyfeiriad ebost neu rif ffôn oni bai eich bod yn methu gwneud hynny. Os byddwch yn rhoi'ch cyfeiriad ebost yna fe gewch chi neges ebost awtomatig i gydnabod hynny ar ôl ichi gyflwyno'ch ymateb.

**C4. Dywedwch ym mha gapasiti rydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad trwy ddewis o blith y canlynol:**

- unigolyn
- sefydliad ymchwil
- corff masnach sector neu sefydliad aelodaeth
- ecolegydd
- academydd
- ymgynghorydd cynllunio
- datblygwr neu adeiladwr
- awdurdod lleol
- corff cyhoeddus
- sefydliad anllywodraethol
- tirfeddiannwr
- arall (rhowch y manylion)

**C5. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw'r sefydliad rydych yn ymateb ar ei ran.**

**C6. Nodwch eich maes diddordeb penodol wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn:**

- cychod
- pysgota
- y môr
- garddwriaeth
- sw
- anifeiliaid anwes
- gardd fotanegol
- acwariwm
- eNGO
- canolfan achub
- hobi
- grŵp diddordeb rhywogaeth
- arall (rhowch y manylion)

**C7. Nodwch pa leoliad y mae'ch ymateb yn ymwneud ag ef, gan ddewis o blith y canlynol:**

- Prydain Fawr

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- arall (dywedwch ble)

## Cwestiynau am PAPs

**C8. PAP Cychod Hamdden: Ydych chi’n fodlon ar y camau yn y PAP hwn?** Ydw neu nac ydw

**C9. Os nad ydych, beth allai gael ei wella yn eich barn chi?**

- cam yn eisiau
- gallai cam gael ei wella
- testun yn eisiau
- gallai’r testun gael ei wella
- arall

Gweler C10 i ymhelaethu ar unrhyw newidiadau.

**C10. Rhowch fanylion y newidiadau y byddech chi’n eu gwneud i’r PAP hwn neu unrhyw beth arall sy’n bwysig yn eich barn chi.**

Cyfeiriwch at y camau yn ôl y rhif, a sôn a ddylai gael ei ddileu neu ei newid (a sut felly), neu awgrymwch gamau ychwanegol.

**C11. PAP Pysgota: Ydych chi’n fodlon ar y camau yn y PAP hwn?** Ydw neu nac ydw

**C12. Os nad ydych, beth allai gael ei wella yn eich barn chi?**

- cam yn eisiau
- gallai cam gael ei wella
- testun yn eisiau
- gallai’r testun gael ei wella
- arall

Gweler C13 i ymhelaethu ar unrhyw newidiadau.

**C13. Rhowch fanylion y newidiadau y byddech chi’n eu gwneud i’r PAP hwn neu unrhyw beth arall sy’n bwysig yn eich barn chi.**

Cyfeiriwch at y camau yn ôl y rhif, a sôn a ddylai gael ei ddileu neu ei newid (a sut felly), neu awgrymwch gamau ychwanegol.

**C14. PAP Garddwriaeth: Ydych chi'n fodlon ar y camau yn y PAP hwn?** Ydw neu nac ydw

**C15. Os nad ydych, beth allai gael ei wella yn eich barn chi?**

- cam yn eisiau
- gallai cam gael ei wella
- testun yn eisiau
- gallai'r testun gael ei wella
- arall

Gweler C16 i ymhelaethu ar unrhyw newidiadau.

**C16. Rhowch fanylion y newidiadau y byddech chi'n eu gwneud i'r PAP hwn neu unrhyw beth arall sy'n bwysig yn eich barn chi.**

Cyfeiriwch at y camau yn ôl y rhif, a sôn a ddylai gael ei ddileu neu ei newid (a sut felly), neu awgrymwch gamau ychwanegol.

**C17. PAP Sŵau ac Acwaria: Ydych chi'n fodlon ar y camau yn y PAP hwn?**
Ydw neu nac ydw

**C18. Os nad ydych, beth allai gael ei wella yn eich barn chi?**

- cam yn eisiau
- gallai cam gael ei wella
- testun yn eisiau
- gallai'r testun gael ei wella
- arall

Gweler C19 i ymhelaethu ar unrhyw newidiadau.

**C19. Rhowch fanylion y newidiadau y byddech chi'n eu gwneud i'r PAP hwn neu unrhyw beth arall sy'n bwysig yn eich barn chi.**

Cyfeiriwch at y camau yn ôl y rhif, a sôn a ddylai gael ei ddileu neu ei newid (a sut felly), neu awgrymwch gamau ychwanegol.

**C20. PAP Anifeiliaid Anwes: Ydych chi'n fodlon ar y camau yn y PAP hwn?**
Ydw neu nac ydw

**C21. Os nad ydych, beth allai gael ei wella yn eich barn chi?**

- cam yn eisiau
- gallai cam gael ei wella
- testun yn eisiau
- gallai'r testun gael ei wella
- arall

Gweler C22 i ymhelaethu ar unrhyw newidiadau.

**C22. Rhowch fanylion y newidiadau y byddech chi'n eu gwneud i'r PAP hwn neu unrhyw beth arall sy'n bwysig yn eich barn chi.**

Cyfeiriwch at y camau yn ôl y rhif, a sôn a ddylai gael ei ddileu neu ei newid (a sut felly), neu awgrymwch gamau ychwanegol.

**Adborth yr Ymgyngoreion ar yr Arolwg Ar-lein**

Annwyl Ymgynghorai

Diolch ichi am gymryd yr amser i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein hwn. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech roi syniad i ni o sut rydych chi'n ystyried yr offeryn a'r meysydd rydych chi'n teimlo sydd angen eu gwella trwy gwblhau ein holiadur adborth.

**Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar yr offeryn ymgynghori ar-lein?**

bodlon iawn
bodlon
ddim yn fodlon nac yn anfodlon
anfodlon
anfodlon iawn
wn i ddim

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ar yr offeryn, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallem ei wella.